Taflen Wybodaeth i Weithwyr Proffesiynol (Fersiwn 2.0, Ebrill 2023)

Teitl yr Astudiaeth: Merched yn tyfu i fyny ag ADHD

Os hoffech i ni anfon copi caled o'r daflen wybodaeth hon atoch, anfonwch neges e-bost at: williamstl6@cardiff.ac.uk.

Gwahoddiad

Hoffem eich gwahodd i gymryd rhan yn ein hastudiaeth. Bydd yr astudiaeth hon yn archwilio profiad ac ymgyflwyniad anawsterau ADHD ymhlith merched a menywod ifanc, a hynny o safbwynt gweithwyr proffesiynol (ym maes addysg a gofal iechyd) sydd â phrofiad o weithio gyda phobl ifanc ag ADHD. Cyn penderfynu a hoffech gymryd rhan ai peidio, mae'n bwysig eich bod yn deall pam yr ydym yn cynnal yr astudiaeth a'r hyn y byddwn yn gofyn i chi ei wneud. Cymerwch eich amser i ddarllen yr wybodaeth ganlynol yn ofalus. Trafodwch â phobl eraill os ydych yn dymuno gwneud hynny. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi eu gofyn – mae ein manylion cyswllt ar ddiwedd y daflen.

Beth yw diben yr astudiaeth?

- Mae anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD) yn gyflwr niwroddatblygiadol cyffredin. Fodd bynnag, mae merched a menywod ifanc yn llai tebygol o gael diagnosis o ADHD na bechgyn a dynion ifanc.
- Pan fyddant yn cael diagnosis o ADHD, mae merched a menywod ifanc yn aml yn cael eu diagnosis pan fyddant yn hŷn.
- Gall yr oedi hwn cyn cael diagnosis olygu bod merched a menywod ifanc ag ADHD yn colli allan ar gymorth cynnar ar gyfer eu hanawsterau ADHD. Gallai hyn effeithio ar eu hiechyd a'u llesiant, eu profiadau o'r ysgol a swyddi, yn ogystal â'u cyfeillgarwch a'u perthnasoedd.
- Mae'n bwysig deall sut beth yw ADHD i ferched a menywod ifanc gan y gall ADHD ymgyflwyno yn wahanol yn ôl rhywedd.
- Nod yr astudiaeth hon yw deall profiadau ac ymgyflwyniad ADHD ymhlith merched a menywod ifanc, a hynny er mwyn canfod ymgyflwyniadau mwy rhywedd-amrywiol o symptomau ADHD.

- Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i ddatblygu offeryn asesu ADHD newydd a fydd yn gynhwysol o ran rhywedd ar gyfer plant ysgolion cynradd, ochr yn ochr â gweithgareddau ymchwil y mae tîm yr astudiaeth yn eu cynnal.

Pwy a all gymryd rhan yn yr astudiaeth hon?

Gweithwyr gofal iechyd ac addysgol proffesiynol sy'n:

- Meddu ar brofiad sylweddol o weithio gyda phobl ifanc ag ADHD
- Byw a gweithio yng Nghymru neu'r DU ehangach

Pam yr wyf wedi cael gwahoddiad i gymryd rhan?

Hoffem eich gwahodd i gymryd rhan am ein bod yn teimlo y byddai eich profiad o weithio gyda phobl ifanc ag ADHD yn gwneud cyfraniad pwysig at ddeall profiadau merched a menywod ifanc sy'n tyfu i fyny ag ADHD.

A oes rhaid i mi gymryd rhan?

Nac oes. Mater i chi yw penderfynu a ydych am gymryd rhan yn yr astudiaeth hon. Os byddwch yn penderfynu cymryd rhan, cewch gadw'r daflen wybodaeth hon a byddwn yn gofyn i chi lofnodi ffurflen gydsynio. Os na fyddwch am gymryd rhan mwyach, gallwch dynnu'n ôl ar unrhyw adeg heb roi esboniad, hyd yn oed ar ôl llofnodi'r ffurflen gydsynio. Ni fydd yna anfantais i chi.

Beth y bydd cymryd rhan yn ei olygu?

Os ydych yn fodlon cymryd rhan yn yr astudiaeth hon, bydd angen i chi lenwi ffurflen ar-lein gyntaf fel y gallwn asesu eich cymhwystra i gymryd rhan. Os ydych yn gymwys, a bod yna leoedd ar ôl yn yr astudiaeth, byddwch yn cael gwahoddiad i gymryd rhan mewn grŵp ffocws gyda gweithwyr proffesiynol yn eich maes gwaith (h.y. naill ai addysg neu ofal iechyd), a fydd yn cymryd oddeutu 90 munud (gan gynnwys seibiannau). Gellir cynnal y grŵp ffocws ar-lein ar ffurf sgwrs fideo (e.e. Zoom) neu wyneb yn wyneb ym Mhrifysgol Caerdydd, yn dibynnu ar eich dewis. Yn ystod y grŵp ffocws, hoffem ofyn cwestiynau i ysgogi trafodaeth am eich barn am ADHD ymhlith merched ifanc, yn seiliedig ar eich profiadau o weithio gyda disgyblion/chleifion ag ADHD. Os bydd y grŵp ffocws yn cael ei gynnal wyneb yn wyneb, bydd y sain yn cael ei recordio. Fodd bynnag, os bydd y grŵp ffocws yn cael ei gynnal ar-lein ar ffurf sgwrs fideo, bydd y sain a'r llun yn cael eu recordio. Dim ond yn recordiadau sain y cyfweliad y mae gennym ddiddordeb; fodd bynnag, bydd recordiad fideo o'r cyfweliad yn cael ei wneud os bydd yn cael ei gynnal ar-lein ar ffurf sgwrs fideo gan fod ffeiliau fideo yn cael eu creu'n awtomatig wrth recordio sain ar Zoom. Yna bydd y recordiad sain yn cael ei drawsgrifio'n ddienw gan gwmni proffesiynol.

Cyfle i gymryd rhan mewn astudiaeth ddilynol yn y dyfodol

Gallwch hefyd ddewis ein bod yn cysylltu â chi ynghylch y posibilrwydd o gymryd rhan yn ail gam yr astudiaeth hon i'n helpu i wella'r offeryn asesu ADHD newydd y byddwn yn ei ddatblygu trwy ddefnyddio canlyniadau'r astudiaeth hon. Mae hyn yn ddewisol a byddwn yn darparu rhagor o wybodaeth am yr astudiaeth ddilynol hon i'r rhai sydd â diddordeb.

A fyddaf yn cael fy nhalu am gymryd rhan?

Byddwch. Byddwch yn cael taleb rhodd Love2Shop gwerth £25 i ddiolch am eich amser. Mae talebau ychwanegol ar gael i dalu am unrhyw gostau teithio (os bydd hynny'n berthnasol).

Beth yw manteision posibl cymryd rhan?

Ein gobaith yw y bydd yr astudiaeth yn brofiad diddorol a defnyddiol i chi. Bydd yna gyfle i chi drafod eich profiadau o weithio gyda disgyblion/chleifion ag ADHD. Bydd yr wybodaeth yr ydych yn ei darparu yn cael ei defnyddio i ddatblygu offeryn asesu ADHD newydd a allai fod o gymorth i bobl ifanc yn y dyfodol.

Beth yw'r anfanteision posibl o gymryd rhan?

Mae'n bosibl y bydd rhai pobl yn ei chael yn anodd siarad am agweddau penodol ar eu profiadau o weithio gyda disgyblion/chleifion ag ADHD, neu y bydd siarad am hynny'n peri gofid iddynt. Byddwn yn ei gwneud yn glir ar ddechrau'r grŵp ffocws nad oes rhaid i chi siarad am unrhyw beth sy'n eich gwneud yn anghyfforddus, ac y gallwch gymryd seibiant neu stopio ar unrhyw adeg.

A fydd y ffaith fy mod wedi cymryd rhan yn yr ymchwil hon yn cael ei chadw'n gyfrinachol?

Bydd. Bydd yr holl wybodaeth a gesglir amdanoch yn ystod yr astudiaeth hon yn cael ei chadw'n gyfrinachol, yn unol â deddfwriaeth diogelu data, a dim ond at ddibenion ymchwil y bydd tîm yr astudiaeth yn ei defnyddio. Ni fydd eich enw na gwybodaeth amdanoch a allai gael ei defnyddio i'ch adnabod ynghlwm wrth unrhyw wybodaeth na dyfyniadau gair-am-air o'r grŵp ffocws a allai gael eu defnyddio mewn adroddiadau neu gyhoeddiadau academaidd. Mewn amgylchiadau eithriadol lle mae yna bryder brys, efallai y bydd yn rhaid i'r tîm ymchwil ddatgelu gwybodaeth i'r asiantaethau perthnasol os bydd yn ofynnol gwneud datgeliad yn ôl y gyfraith neu rwymedigaeth broffesiynol (er enghraifft, os ydym yn poeni am eich diogelwch chi neu ddiogelwch rhywun arall).

Beth a fydd yn digwydd i'm gwybodaeth bersonol, a beth a fydd yn digwydd i'r wybodaeth ar ddiwedd yr astudiaeth?

Bydd yr astudiaeth hon yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol, gan gynnwys eich enw, eich manylion cyswllt (rhif ffôn a chyfeiriad e-bost), a'ch oedran. Dim ond tîm yr astudiaeth a fydd â mynediad at yr wybodaeth hon. Bydd gan eich gwybodaeth rif adnabod ar gyfer yr astudiaeth i sicrhau anhysbysrwydd. Bydd recordiadau sain y grŵp ffocws yn cael eu trawsgrifio gan gwmni proffesiynol a fydd yn defnyddio eich rhif adnabod ar gyfer yr astudiaeth i sicrhau anhysbysrwydd. Byddwn yn cadw'r holl wybodaeth amdanoch yn ddiogel. Byddwn yn dadansoddi'r wybodaeth at ddibenion yr astudiaeth ac, ar ddiwedd yr astudiaeth, bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw'n ddiogel gan Brifysgol Caerdydd yn unol ag Atodlen Cadw Cofnodion y Brifysgol. Byddwn yn ysgrifennu ein hadroddiadau mewn modd a fydd yn golygu na fydd neb yn gallu cael gwybod eich bod wedi cymryd rhan yn yr astudiaeth.

Efallai y bydd rhywfaint o'ch gwybodaeth yn cael ei hanfon o Brifysgol Caerdydd i'w dadansoddi gan ymchwilwyr sy'n rhan o dîm ehangach yr astudiaeth ac sy'n rhoi cyngor ar y prosiect; mae'r rhain yn ymchwilwyr yn King's College, Llundain, Prifysgol Nottingham a Phrifysgol Caerwysg. Bydd unrhyw wybodaeth y byddwn yn ei hanfon yn ddienw, felly ni fydd yn bosibl eich adnabod o'r wybodaeth hon. Rhaid iddynt ddilyn ein rheolau ynghylch cadw eich gwybodaeth yn ddiogel.

Beth yw'r dewisiadau ynghylch y modd y mae fy ngwybodaeth yn cael ei defnyddio?

Gallwch roi'r gorau i gymryd rhan yn yr astudiaeth unrhyw bryd, a hynny heb roi rheswm, ond byddwn yn cadw'r wybodaeth amdanoch sydd gennym eisoes.

Pwy sy'n cadw'r wybodaeth amdanaf?
Mae'n ofynnol i ni brosesu a storio eich data personol am hyd at 15 mlynedd mewn cyfleusterau archifo cymeradwy (cyfrifiaduron diogel), gan ddilyn y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Prifysgol Caerdydd yw'r Rheolydd Data, ac mae'n ymrwymedig i barchu a diogelu eich data personol yn unol â'ch disgwyliadau a deddfwriaeth Diogelu Data. Gellir cael rhagor o wybodaeth am Ddiogelu Data yma: https://www.cardiff.ac.uk/cy/public-information/policies-and-procedures/data-protection. (Rhowch wybod os oes arnoch angen copi papur o'r wybodaeth hon.)

Beth a fydd yn digwydd i ganlyniadau'r astudiaeth?

Bydd y canlyniadau a gesglir yn ystod yr astudiaeth hon yn cael eu cofnodi mewn adroddiad a fydd yn cael ei gyhoeddi mewn cyfnodolyn academaidd. Efallai y bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys dyfyniadau gair-am-air o'r grŵp ffocws, ond bydd yr wybodaeth yn cael ei gwneud yn ddienw fel na ellir eich adnabod mewn unrhyw fodd. At hynny, ni fydd modd eich adnabod mewn unrhyw adroddiad, cyhoeddiad, na chyflwyniad arall. Bydd y canlyniadau hefyd yn cael

eu defnyddio i helpu i ddatblygu offeryn asesu ADHD newydd a fydd yn gynhwysol o ran rhywedd.

Pwy sy'n trefnu ac yn ariannu'r astudiaeth hon?

Trefnir yr astudiaeth gan ymchwilwyr ym Mhrifysgol Caerdydd. Caiff ei hariannu gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

Pwy sydd wedi adolygu a chymeradwyo'r astudiaeth hon?

Mae'r astudiaeth hon wedi cael ei hadolygu gan Bwyllgor Moeseg yr Ysgol Feddygaeth ym Mhrifysgol Caerdydd [SMREC 23/28] er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei chyflawni mewn modd moesegol.

Beth os bydd yna broblem?

Os oes gennych bryder neu os ydych yn teimlo eich bod wedi profi niwed mewn unrhyw fodd trwy gymryd rhan yn yr astudiaeth, dylech siarad â Dr Joanna Martin (martinjm1@cardiff.ac.uk), a fydd yn gwneud ei gorau i helpu. Os ydych yn dal i fod yn anhapus ac am gwyno'n ffurfiol, gallwch gysylltu â Chadeirydd Pwyllgor Moeseg Ymchwil yr Ysgol, Dr Ned Powell (PowellNG@cardiff.ac.uk).

Rhagor o wybodaeth a manylion cyswllt

Y tîm ymchwil:

- Dr Joanna Martin
- Tamara Williams
- Yr Athro Anita Thapar

Os oes arnoch eisiau rhagor o wybodaeth am yr astudiaeth neu os oes gennych gwestiynau, cysylltwch â:

Joanna Martin (martinjm1@cardiff.ac.uk)

Yr Is-adran Meddygaeth Seicolegol a Niwrowyddoniaeth Glinigol, Prifysgol Caerdydd, Adeilad Hadyn Ellis, Heol y Maendy, Caerdydd, CF24 4HQ.

Diolch am ddarllen yr wybodaeth hon.

Gallwch gadw'r copi hwn.